



## Polisi Amgylcheddol

### Egwyddorion a phrosesau

Cred Menter Ty'n Llan fod amddiffyn yr amgylchedd a'r gymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig ac ymrwymwn i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hyn yn ganolog i'n gweithgareddau ac yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth o ddatblygu Ty'n Llan fel hwb cymunedol, busnes cynaliadwy ac adnodd amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan, gan hefyd ddiogelu'r adeilad hanesyddol.

Penodir aelod dynodedig o'r Pwyllgor Rheoli i fod yn gyfrifol am sicrhau bod ein Polisi Amgylcheddol yn cael ei gyfleu i'r holl aelodau staff presennol a newydd. Enwir yr aelod dynodedig cyfredol isod.

### Strategaeth amgylcheddol

#### Gwastraff

Rydym yn anelu at fod yn sefydliad diwastraff a defnyddiwn yr hierarchaeth gwastraff i lywio ein cynllun gweithredu

- anogir darganfod ffyrdd i aildefnyddio ac ailgylchu
- ymdrinnir â gwastraff compost ar y safle
- didolir gwastraff na ellir ei drin ar y safle i'w gasglu i'w ailgylchu neu ei gompostio
- labelir biniau yn glir â'r math o wastraff y maent ar ei gyfer ac fe'u lleolir mewn mannau cyfleus
- os yn ddiogel i wneud hynny, cynigir eitemau di-eisiau i sefydliadau eraill

#### Prynu

Bydd ein penderfyniadau prynu yn cael eu llywio gan egwyddorion moesegol ac ymrwymwn i fabwysiadu polisi pryniant ffurfiol

- wrth ddewis cynhyrchion a gwasanaethau blaenoriaethwn effeithlonrwydd ynni a gwarediad diogel ar ddiwedd oes
- cyn belled â phosibl bydd pob cynnyrch a brynwn wedi'i becynnu cyn lleied â phosibl, yn abl i'w ailwefru ac wedi'i gynhyrchu o ddeunyddiau cynaliadwy. Pan yn ymarferol i wneud hynny, defnyddir cynhyrchion ail law neu wedi'u hailgylchu
- rhown flaenoriaeth i gyflenwyr a chontractwyr lleol
- rhown flaenoriaeth i gyflenwyr sydd wedi'u hachredu'n annibynnol ac i'r rhai sy'n cefnogi ein hiaith, ein diwylliant ac sy'n rhannu ein gwerthoedd

#### Dŵr

Mae dŵr glân yn adnodd cyfyngedig ac ymdrechwn i fod yn ddoeth wrth ei ddefnyddio. Defnyddiwn ddŵr ar gyfer glanhau, coginio, yfed a dyfrio planhigion

- ymrwymwn i fonitro a lleihau'r defnydd o ddŵr trwy gasglu ac ailgylchu dŵr glaw ar ein hadeiladau ein hunain
- ymrwymwn i warchod dŵr prif gyflenwad trwy wirio ac atgyweirio gollyngiadau mewn pibellau, tapiâu ac unrhyw offer arall sy'n defnyddio dŵr yn rheolaidd
- byddwn yn chwilio am gynhyrchion a gwasanaethau dŵr-effeithlon i'w defnyddio pryd bynnag y

bo hynny'n bosibl

### Ynni

Ein nod yw cynhyrchu a defnyddio ein hynni adnewyddadwy ein hunain. O'r herwydd, rydym yn naturiol wedi ymrwymo i liniaru newid hinsawdd trwy gyfyngu ein hynni i ffynonellau adnewyddadwy a defnyddio'r hyn sydd ei angen arnom a dim mwy ar gyfer gwres, coginio a golau

- byddwn yn gosod targed ar gyfer lleihau ein defnydd blynyddol o ynni
- mae gosod solar ar y safle yn cael ei archwilio
- defnyddiwn bylbiau golau LED ynni effeithlon yn unig
- ein nod yw defnyddio system wresogi adnewyddadwy gydag amseryddion a thermostatau i leihau'r galw
- diffoddir offer trydanol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

### Tir

Mae gennym gyfrifoldeb i gefnogi bioamrywiaeth ac i hybu fflora a ffawna brodorol ar ein tir yn ogystal â' chynnal ein mannau allanol i'r safon uchaf er budd ein cymuned

- byddwn yn ceisio defnyddio deunyddiau lleol, naturiol neu wedi'u hadfer wrth adnewyddu'r adeilad pan fo hynny'n bosibl

### Codi Ymwybyddiaeth

Ategir a chefnogir y polisi hwn gan ein Cynllun Gweithredu

- bydd ar gael i holl aelodau presennol a newydd y Pwyllgor Rheoli
- bydd ar gael i'r holl staff presennol a newydd fel rhan o'u anwythiad a'u gwerthuso blynyddol
- byddwn yn trafod ein cyrhaeddiad ymhob maes yn rheolaidd mewn cyfarfodydd pwyllgor
- byddwn yn cynnwys diweddariadau ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ein cylchlythyrau
- byddwn yn cyd-ddatblygu ein gwaith mewn cydweithrediad â'n cymuned leol a rhanddeiliaid eraill

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol

Aelod Dynodedig o'r Pwyllgor Rheoli: Grant Peisley

Mabwysiadwyd 25 Mai 2021

Llofnod y Cadeirydd ..... *C. E. Lewis* ..[CARYL ELIN LEWIS].....

Llofnod Aelod o'r Pwyllgor Rheoli ..... *Carys Aaron* ...[Carys Aaron].....